CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Cwestiwn Effaith ar Yrfa

Mae'r cwestiwn ddewisol hon (sydd yn rhan o'r ffurflen caniatâd) ar gael i unrhyw ymgeisydd neu dîm dynnu sylw at unrhyw ffactorau sydd wedi effeithio neu amharu ar eu gyrfa er mwyn sicrhau y caiff y ffactorau hynny eu pwyso a'u mesur wrth ystyried eu henwebiad.

Rydym yn cydnabod y gall amgylchiadau unigol, nodweddion gwarchodedig a chroestoriad o'r rheiny effeithio ar yrfa pawb mewn gwahanol ffyrdd. Er mwyn hyrwyddo adolygiad teg, rydym wedi cyflwyno'r cwestiwn hon ac yn annog pob ymgeisydd i'w defnyddio fel ffordd o dynnu sylw'r Pwyllgor Craffu Medalau a Gwobrau at unrhyw beth a allai fod wedi effeithio ar eu gyrfa a'u cyfraniadau at fyd dysg ac ymchwil.

Rydym yn deall bod hyn yn unigryw i bawb, ac rydym yn annog ymgeiswyr i rannu unrhyw beth yr hoffent iddo gael ei ystyried.

Gallwch ddewis sut mae'r gwybodaeth hon yn cael ei gweld gan y Pwyllgor Craffu Medalau a Gwobrau. Allwch dewis opsiwn o blith y canlynol:

- Rhannu'r gwybodaeth â'r Pwyllgor Craffu Medalau a Gwobrau i'w hystyried ochr y ochr â'ch enwebiad. Gallwch fod yn dawel eich meddwl y bydd yr wybodaeth a rennir gennych yn cael ei thrin yn sensitif, yn deg ac yn gyfrinachol.

- Y gwybodaeth i'w rhannu â Chadeirydd yn unig (neu Is-gadeirydd yn ei absenoldeb) y pwyllgor sy'n asesu eich enwebiad. Bydd y Cadeirydd (neu'r Is-gadeirydd yn ei absenoldeb) yn rhoi crynodeb o'r effaith ar eich gyrfa/tîm (yn hytrach na'r manylion sydd wedi'u cynnwys ar y ffurflen) i'r aelodau eraill eu hystyried.

Amgylchiadau Unigol

Amlinellwch unrhyw ffactorau yr hoffech inni eu hystyried sydd wedi effeithio ar broffil eich gyrfa neu faint eich cynnyrch. Os yw'n well gennych gadw union fanylion y ffactorau hyn yn gyfrinachol, canolbwyntiwch ar eu heffaith.

Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Caniatâd (sy'n cynnwys y cwestiwn effaith gyrfa) erbyn 12:00 pm, 1 Mehefin.

Noder y bydd y Gymdeithas yn cadw'r ffurflen a lenwyd gennych hyd ddiwedd y broses graffu ar gyfer Medalau a Gwobrau. Bydd yn cael ei dileu cyn pen 12 mis ar ôl y dyddiad derbyn. Am ragor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gweler ein Polisi Preifatrwydd.